# Archwiliad Diabetes Cenedlaethol:

## helpu i wella gofal ar gyfer diabetes

**Mae'r feddygfa deulu hon yn cymryd rhan mewn prosiect cenedlaethol pwysig sy'n ymwneud â phobl sydd mewn perygl o gael diabetes a gofal a thriniaeth ar gyfer diabetes yn y GIG.**

**Yr enw ar y prosiect yw'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol (NDA).**

Os oes gennych ddiabetes, hyperglycaemia anniabetig, nam o ran goddefiad i glwcos, neu gyn-ddiabetes, bydd eich meddygfa deulu yn rhannu gwybodaeth am eich gofal a thriniaeth ar gyfer diabetes â'r NDA. Mae'r math o wybodaeth, a sut y caiff ei rhannu, yn cael eu rheoli gan y gyfraith a'u gorfodi gan reolau llym sy'n ymwneud â chyfrinachedd a diogelwch.

**Mae cymryd rhan yn yr NDA yn dangos bod y feddygfa deulu hon wedi ymrwymo i leihau diabetes a gwella gofal ar gyfer pobl sydd â diabetes.**

**Gwybodaeth Bwysig i Gleifion**

Er bod yn rhaid cyflwyno holl wybodaeth yr NDA i GIG Lloegr, gallwch atal eich data rhag cael eu rhannu ymhellach. Ni fydd hyn yn effeithio ar eich gofal.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael – gofynnwch i aelod o staff am daflen wybodaeth i gleifion neu cysylltwch â GIG Lloegr:

**E-bost:** diabetes@nhs.net **Ffôn:** 0300 303 5678

https://digital.nhs.uk/nda